**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 26 Mai 2020**

| **Eitem ar yr Agenda** | **Pwnc** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGANIADAU O FUDDIANT | Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan. |
| **3** | MATERION BRYS | Rhoddodd y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth, ddatganiad yn tynnu sylw at ei phryderon am y Coronafeirws a'i effaith mewn cartrefi gofal, ysbytai a chymunedau. |
| **4** | COFNODION | Cynhaliwyd pleidlais: 7 o blaid, 0 yn erbyn, 0 yn ymatal<br><br>***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2020 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.* |
| **5** | CYMERADWYAETH GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL | Cynhaliwyd pleidlais: 7 o blaid, 0 yn erbyn, 0 yn ymatal<br><br>***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cymeradwyo cam dylunio Cynllun Amddiffyniad Arfordirol Canol Prestatyn, a fydd yn cael ei ariannu 100% trwy grant gan Lywodraeth Cymru, ar y ddealltwriaeth nad oedd yna risg i'r Cyngor ac nad oedd hyn yn ymrwymo'r awdurdod i'r cam adeiladu ac ariannu pellach (fel y manylir yn Adran 4.2 yr adroddiad ac Atodiad 1 yr adroddiad), a*<br><br>*(b) cymeradwyo cam dylunio Cynllun Amddiffyniad Arfordirol Canol Rhyl, a fydd yn cael ei ariannu 100% trwy grant gan Lywodraeth Cymru, ar y ddealltwriaeth nad oedd yna risg i'r Cyngor ac nad oedd hyn yn ymrwymo'r awdurdod i'r cam adeiladu ac ariannu pellach (fel y manylir yn Adran 4.3 yr adroddiad ac Atodiad 2 yr adroddiad).* |
| **6** | ADRODDIAD CYLLID (STRATEGAETH ARIANNOL COVID | Cynhaliwyd pleidlais: 7 o blaid, 0 yn erbyn, 0 yn ymatal |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | 19) | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) nodi'r rhagolygon o ran effaith ariannol pandemig Covid-19 ar y Cyngor, a*<br><br>*(b) cymeradwyo fersiwn ddrafft Strategaeth Ariannol fel yr amlinellir yn yr adroddiad.* |
| **7** | BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET | Cynhaliwyd pleidlais: 7 o blaid, 0 yn erbyn, 0 yn ymatal<br><br>***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |